

**Cyfarfod Pwyllgor: Panel Ymgynghorol Preswylwyr
Adroddiad Er Gwybodaeth**

Teitl: Adroddiad Cyfranogiad Tenantiaid Ebrill 2018-Mawrth 2019

1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Darparu diweddariad ar Gyfranogiad Tenantiaid yn Tai Gogledd Cymru o Ebrill 2018 i Mawrth 2019 ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Landlordiaid (PGL) a'r Panel Ymgynghorol Preswylwyr (PYP).

2 Camau Gofynnol / Argymhellion

2.1 Mae'r adroddiad er gwybodaeth a gofynnir i'r aelodau adolygu a nodi'r cynnwys.

3 Cefndir

3.1 Beth yw Cyfranogiad Tenantiaid?

3.2 Mae yna nifer o ddiffiniadau ar gyfer cyfranogiad neu ymgysylltu â thenantiaid. Diffiniad sydd yn cael ei ddefnyddio yn aml yw'r un gan TPAS Cymru:

“Cyfranogiad tenantiaid yw'r ffordd y mae tenantiaid a landlordiaid yn rhannu syniadau ac yn cydweithio. Mae'n ffordd i'r tenantiaid fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n digwydd yn ystod trafodaethau ynglŷn â safon gwasanaethau ac amodau tai.”

4 Cyflwyniad

4.1 Yn dilyn yr adroddiad blynyddol diwethaf cynhaliwyd proses ymgynghori gyda thenantiaid a staff er mwyn adnabod beth rydym yn ei wneud yn dda a beth allwn ei wneud i wella cyfranogiad tenantiaid yn Tai Gogledd Cymru.

4.2 Wrth adolygu canlyniadau'r adroddiad rydym wedi adnabod yr angen i wella'r canlynol:

- Darparu mwy o gyfle i'r Panel Ymgynghorol Preswylwyr ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau
- Cryfhau a hybu'r Grŵp Ymateb Cyntaf fel opsiwn amgen i'r Panel Ymgynghorol Preswylwyr
- Datblygu ffyrdd newydd o gymryd rhan
- Cynyddu'r nifer o denantiaid sy'n cymryd rhan
- Gwellu ymgysylltu gyda phreswylwyr iau (rhwng 17 a 25 oed)
- Darparu mwy o gefnogaeth i denantiaid i wella sgiliau a chael mynediad at hyfforddiant

4.2 Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i'n helpu i ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer 2018-2021. Datblygwyd y strategaeth o amgylch safbwyntiau ein tenantiaid ac ein staff a wnaeth ein cynorthwyo i adnabod beth rydym yn ei wneud yn dda, a lle mae angen i ni wella.

4.3 Cafodd y Strategaeth newydd ei chyhoeddi ar ein gwefan, a'i hyrwyddo ar Facebook a Twitter, a chafwyd erthyglau hefyd eu cynnwys yn newyddlenni staff a thenantiaid.

- 4.3 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan pa gyfleodd ar gyfer cyfranogiad tenantiaid sydd ar gael a pha weithgareddau a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019. Mae hefyd yn nodi sut rydym wedi dechrau gweithio ar y gwelliannau gofynnol a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

5 Panel Ymgynghorol Preswylwyr (PYP)

- 5.1 Mae'r PYP yn grŵp sy'n cynnwys preswylwyr Tai Gogledd Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb dros graffu ar ein gwasanaethau a'n perfformiad er mwyn sicrhau fod pob preswylwr yn derbyn y safon uchaf posib o wasanaeth.
- 5.2 Mae'r panel yn cynnwys 9 aelod sy'n cyfarfod yn ddeufisol er mwyn helpu i bwysu am welliant ar draws ein gwasanaethau.
- 5.3 Yn ystod y cyfnod adrodd yma rhoddwyd sylw i'r materion canlynol fel rhan o agenda cyfarfodydd y PYP:
- Cyflwyniad a thrafodaeth gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
 - Penderfynu pa Ddangosyddion Perfformiad i'w monitro
 - Cyflwyniad gan Helena Kirk, Prif Weithredwr – Trafodaeth ynglŷn â rôl y Panel yn y dyfodol a'i Blaenraglen Waith
 - Adroddiad Cwynion Blynyddol 2017/18
 - Adroddiad Cwynion 6 Misol Ebrill i Medi 2018
 - Cyflwyniad gan Gareth Roberts, Swyddog Diogelu Data – Trafodaeth GDPR ar gyfrifoldebau Tai Gogledd Cymru, Anfon mewnbwn y Panel ar hysbysiadau GDPR at y Tenantiaid
 - Adolygu Polisiau, Gweithdrefnau a Safonau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
 - Adolygu'r broses gofrestru ar gyfer tenantiaid newydd
 - Adolygu Safonau Gwasanaeth Addasu
 - Cwblhau'r Siarter Gofal Cwsmeriaid
 - Mewnbwn ar Ymgynghoriad Dyraniadau Tai Gwynedd
 - Cyflwyniad gan Ruth Langham Wright, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai Dros Dro, a Wayne Williams, Rheolwr Gwaith Trwsio a Gwaith Chynnal a Chadw wedi'i Gynllunio. Darparu diweddariad a thrafodaeth a waith trwsio a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio
 - Mae'r panel hefyd wedi derbyn a chynnig sylwadau ar yr Adroddiad Perfformiad ym mhob cyfarfod. Mae'r Panel yn monitro'r mesuriadau perfformiad canlynol:
 - Boddhad Tenantiaid - Boddhad gyda'r Gwasanaethau Cwsmeriaid
 - Boddhad Tenantiaid - cyfradd ymateb i arolygon Gwasanaethau Cwsmeriaid
 - Boddhad Tenantiaid - gwaith trwsio brys
 - Boddhad Gwaith Trwsio Brys – cyfradd cyflawni
 - Cwynion - Y cyfanswm o gwynion a dderbyniwyd yn y cyfnod yma
 - Cwynion - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ymateb i gwynion
 - Cwynion - Y nifer o gwynion a gafodd eu datrys yn y cyfnod
 - Cwynion - Y ganran o gwynion Cam 1 a gafodd ei cyflawni o fewn yr amser targed
 - Gwasanaethau Cwsmeriaid - Y ganran gyffredinol o alwadau a gafodd eu hateb
 - Gwasanaethau Cwsmeriaid - Opsiwn Cymraeg - Y ganran o alwadau gafodd eu hateb
 - Gwasanaethau Cwsmeriaid - Opsiwn Saesneg - Y ganran o alwadau gafodd eu hateb

- Gwasanaethau Cwsmeriaid - Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn
- Gwaith Trwsio - Y nifer diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd i gwblhau gwaith trwsio
- Gwaith Trwsio - Y ganran o waith brys a gwblhawyd o fewn y safon gwasanaeth
- Gwaith Trwsio - Y ganran o waith arferol a gwblhawyd o fewn y safon gwasanaeth
- Gwaith Trwsio - Y ganran o waith trwsio a gwblhawyd ar yr ymweliad cyntaf

5.4 Mae aelodau'r Panel hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Landlord (PGL), a digwyddiadau TPAS Cymru.

5.5 Yn dilyn y cyfnod adrodd mae gwaith wedi dechrau ar gyfuno'r PYP gyda'r PGL. Mae cadeirydd y PGL wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a bydd cyfarfod cyntaf y panel cyfunol newydd yn digwydd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

5.6 Dywedodd un o aelodau'r Panel y canlynol ynghylch pam roeddent eisiau cymryd rhan: *"Roeddwn eisiau bod yn rhan o'r trafodaethau a'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio yn uniongyrchol ar fy mywyd."*

6 Grŵp Ymateb Cyntaf

6.1 Mae'r Grŵp Ymateb Cyntaf yn gronfa o denantiaid sydd â diddordeb mewn gweithio fel 'darllenwyr' taflenni, ffurflenni, polisïau ayb a darparu adborth.

6.2 Mae gan y Grŵp Ymateb Cyntaf 32 o aelodau ac roeddent yn rhan o'r meysydd gwaith canlynol yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- System ateb galwadau ffôn Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adolygu'r system ateb galwadau ffôn a gafodd ei ddatblygu i lansiad sgwrsio byw
- Adolygu Strategaeth ddrafft ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid
- Mae cylchlythyrau ac arolygon TPAS Cymru yn cael eu dosbarthu i aelodau

7 Digwyddiadau a Gweithgareddau

7.1 Rydym yn trefnu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau er mwyn ymgysylltu â'n tenantiaid. Diben y digwyddiadau a'r gweithgareddau yma yw rhoi cyfle i denantiaid i gymryd rhan yn Tai Gogledd Cymru a gwella safon bywyd yn y cymunedau lle mae ein tenantiaid yn byw.

7.2 Mae ein cystadleuaeth garddio wedi parhau i fod yn boblogaidd ymysg ein tenantiaid. Gall tenantiaid enwebu eu hunain neu gymydog yn y categorïau canlynol:

- Gardd orau
- Gardd sydd wedi gwella fwyaf
- Cynhwysydd gardd gorau
- Gofod/gardd gymunedol orau

7.3 Yn ystod y cyfnod adrodd yma rydym wedi lansio ein cynllun Gwobr Cymydog Da. Y bwriad yw talu teyrnged i'n tenantiaid sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau eu cymdogion neu'r gymuned leol. Rydym yn gwahodd tenantiaid i enwebu tenantiaid eraill Tai Gogledd Cymru ar gyfer y wobwr.

- 7.4 Nid yw Cymdeithasau Preswylwyr mor boblogaidd ag oeddent rai blynyddoedd yn ôl, sy'n sefyllfa gyffredin ar draws nifer o landlordiaid cymdeithasol; ond, rydym yn dal i gynnig cefnogaeth i unrhyw grwpiau sydd wedi eu sefydlu a rhai sydd eisiau dechrau o'r newydd. Cafodd Cymdeithas Preswylwyr Llys y Coed ei ffurfio yn ystod y cyfnod adrodd yma ac maent yn ffynnu, gan drefnu nifer o weithgareddau ar ran preswylwyr Llys y Coed. Er nad ydynt yn grŵp ffurfiol, cafodd cefnogaeth ei rhoi i grŵp o breswylwyr ym Maes y Llan er mwyn iddynt allu trefnu diwrnod hwyl ar ran eu cymdogion.
- 7.5 Ym Mharc Clarence trenfwyd digwyddiad gennym oedd yn cynnwys glanhau ardal yr ardd gymunedol, a chasglu sbwriel ar draws y safle.
- 7.6 Cafodd ymgynghoriad ei gynnal ym Mharc Clarence er mwyn penderfynu ar ddyfodol yr AGAD (Ardal Gemau Aml-Ddefnydd). Mae'r AGAD wedi dadfeilio ac mae'r tenantiaid wedi cael eu holi os byddai'n well ganddynt gael gwared ohono neu ei uwchraddio.
- 7.7 Mae Prosiect 'Bus Stop' yn darparu nifer o weithgareddau ar ein rhan, ac fe'u trafodir mewn mwy o fanylder yn adran 8.
- 7.8 Mae'r prosiect gweithgareddau awyr agored wedi parhau yn ystod y cyfnod adrodd, ac fe'i trafodir mewn mwy o fanylder yn adran 9.
- 7.9 Mae'r Tîm Pobl Hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â'r preswylwyr yn y Cynlluniau Gofal Ychwanegol a Cysgodol:
- Cyfarfodydd Preswylwyr - "Mi ddywedoch chi mi wnaethon ni" ar faterion megis garddio, problemau rheoli, a bwydlenni
 - Codi ymwybyddiaeth a rhoi tawelwch meddwl e.e. cyfarfodydd diogelwch tân
 - Tenantiaid yn dewis gweithgareddau ar gyfer eu cynllun
 - Diweddariad ar waith adnewyddu arfaethedig ac ymgynghori ar ddewis
 - Cyfarfodydd Tenantiaid - Gwrando ar Safbwyntiau Tenantiaid/Cyflwyno Gwybodaeth/Ymgynghori ar flaenoriaethau a gweithredu ar adborth
 - Holiaduron rheolaidd – Boddhad gyda Gwasanaethau – cyfleodd i wella/newid
 - Digwyddiadau/Gweithgareddau Cymdeithasol – megis cynhwysiant digidol a iechyd a lles
 - Fforymau Age Connect – Newid agweddau a thrwy hynny wella bywydau pobl hŷn
 - Cynhelir sesiynau gan Brosiect 'Bus Stop' e.e. celf a chrefft i atal unigrwydd a themlo'n ynysig
 - Fforymau Age Connect
 - Sesiynau ymwybyddiaeth dementia
 - Sesiynau Colli Clyw Cymru
- 7.10 Mae'r Tîm Tai â Chymorth hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ymgysylltu â'u preswylwyr. Gweler isod rhai o'r digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi eu trefnu mewn cynlluniau llety a rennir:
- Mae cyfarfodydd tai rheolaidd yn cael eu cynnal yn y cynlluniau llety a rennir. Mae safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried ac maent yn derbyn nodiadau croesawu, rheolau tŷ, prosiectau garddio, ceisiadau am waith trwsio ac ati.
 - Cyfarfodydd tai rheolaidd – Gwrando ar safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth/cyflwyno gwybodaeth/ymgynghori ar flaenoriaethau
 - Sesiynau "bwyta a choginio'n iach" rheolaidd - gwella iechyd a lles, sgiliau cyllido a chynllunio, cynhwysiant cymdeithasol, adeiladu hyder

- Sgiliau cyllido a chynllunio
- Nosweithiau ffilm – sgiliau negodi, sgiliau cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol ac adeiladu hyder
- Grŵp ysgrifennu creadigol
- Sesiynau cerddoriaeth

8 Prosiect ‘Bus Stop’

- 8.1 Mae Prosiect Bus Stop yn brosiect symudol i ddatblygu cymunedau.
- 8.2 Mae Tai Gogledd Cymru yn bartner yn y prosiect ynghyd â Grŵp Cynefin, Cartrefi Conwy, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 8.3 Mae’r prosiect yn cynnwys ystod eang o wasanaethau a chyfleodd, gan gynnwys:
- Gwybodaeth a chefnogaeth ar faterion megis iechyd a lles, budd-daliadau, a bwlio
 - Prosiectau sy’n hybu pobl ifanc i ymgysylltu yn gadarnhaol gyda’u cymunedau
 - Prosiectau sydd wedi eu bwriadu i leihau eithrio cymdeithasol
 - Cyfleodd i bobl rannu eu meddyliau a’u teimladau yn eu cymuned leol
- 8.4 Mae Prosiect Bus Stop wedi darparu’r prosiectau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:
- Prosiect Dinasyddiaeth a Diogelwch Ar Y Ffyrdd Cae Bold (12 cyfranogwr)
 - Prosiect yr Amgylchedd ac Ailgylchu Cae Bold (20 cyfranogwr)
 - Prosiect Iechyd a Lles Cae Bold (21 cyfranogwr)
 - Cynllun Gofal Ychwanegol Cae Garnedd - sesiynau celf a chreffft (22 cyfranogwr)
 - Prosiect Dinasyddiaeth a Diogelwch Ar Y Ffyrdd Gallt y Sil (19 cyfranogwr)
 - Cynllun Gofal Ychwanegol Hafod y Parc – sesiynau crefftau Nadolig (8 cyfranogwr)
 - Cynllun Tai Cysgodol Y Gorlan - sesiynau Celf a Chreffft (13 cyfranogwr)
 - Cynllun Tai Cysgodol Y Gorlan – sesiynau crefftau Nadolig (8 cyfranogwr)
 - Sesiynau Gwyliau Pasg (sesiynau un diwrnod yng Nghae Bold, Gallt y Sil, Maes y Llan, Maes Myrddin, Parc Clarence a Woodlands) (32 cyfranogwr)
 - Sesiynau Hanner Tymor Mai (sesiynau un diwrnod yn Cae Bold a Pharc Clarence) (6 cyfranogwr)

9 Agor y Drysau i’r Awyr Agored

- 9.1 Bwriad y prosiect yw darparu cyfleodd i’r rheiny sydd ar incwm isel ac sy’n economaidd segur i’w galluogi i allu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored.
- 9.2 Mae’r prosiect hefyd yn bwriadu datblygu cyfleodd i gael cyflogaeth a chyfleodd gwirfoddoli yn y sector awyr agored. Yn ystod y cyfnod adrodd mae tenantiaid wedi cael cyfleodd i gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:
- Cerdded Bryniau (5 cyfranogwr)
 - Canwio a Chaiacio (6 cyfranogwr)
 - Beicio mynydd (8 cyfranogwr)
 - Dringo Dan Do (9 cyfranogwr)
- 9.3 Mae pob gweithgaredd yn cael ei arwain gan hyfforddwr cymwys a darperir cludiant i’r cyfranogwyr.

9.4 Dywedodd Paul, sydd wedi cymryd rhan mewn nifer o'r digwyddiadau: *"Dwi'n falch iawn fy mod wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau awyr agored, mae wedi bod yn braf rhoi cynnig ar bethau na fuaswn fel arfer yn eu gwneud, ac roedd yr hyfforddwyr yn gyfeillgar iawn. Diolch i TGC ac Iwan am drefnu hyn i gyd."*

9.5 Dywedodd Karl, un arall o'r rhai wnaeth gymryd rhan: *"Dwi'n teimlo'n fwy hyderus ac eisiau mynd allan fwy, yn hytrach nag aros mewn drwy'r amser. Mae gen i gyfweliad wythnos nesaf i wneud gwaith gwirfoddol."*

10 Grant Datblygiad Personol

10.1 Mae ein Grant Datblygiad Personol wedi cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau ariannol a allai atal ein tenantiaid rhag cyrchu addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

10.2 Mae enghreifftiau o beth a allai gael eu cyllido yn cynnwys:

- Offer neu gyfarpar ar gyfer swydd neu gymhwyster e.e. cit trin gwallt neu lyfrau ar gyfer coleg
- Ffioedd cwrs
- Gwisg addas ar gyfer cyfweliad

10.3 Cawsom dau gais llwyddiannus yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Cais i dalu am gostau eitemau i gefnogi dechrau busnes gofal plant, gan gynnwys cwrs lefel 2 mewn glendid bwyd a ffioedd aelodaeth priodol
- Cais i dalu am gost llyfrau ar gyfer cwrs yng Ngholeg Menai

11 Cronfa Gymunedol

11.1 Mae ein Cronfa Gymunedol wedi cael ei datblygu i ddarparu cyllid er mwyn cynorthwyo grwpiau gwirfoddol, cymunedol, hamdden neu breswyl.

11.2 Dylai'r sefydliadau/grwpiau yma fod yn datblygu prosiectau a mentrau sydd o fudd i'r gymuned leol. Mae'n rhaid i'r sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid fodloni'r amodau canlynol:

- Rhaid iddynt fod yn grŵp/sefydliad cyfansoddol a bod â chyfrif banc gydag o leiaf dau lofnodwr
- Rhaid iddynt fod â pholisi mynediad agored tuag at aelodaeth, y defnydd o'u cyfleusterau a chyfranogiad mewn gweithgareddau
- Rhaid iddynt fod yn grŵp/sefydliad anwleidyddol

11.3 Yn ystod y cyfnod adrodd dyfarnwyd grantiau bychain i'r isod:

- Cais i helpu talu am gostau cyfarpar ar gyfer tîm pêl-droed ieuenctid lleol

12 Gweithgareddau yn y Dyfodol

12.1 Fel trafodwyd yn adran 5 bydd y PYP a'r PGL yn cyfuno er mwyn ffurfio'r Panel Tenantiaid a Chymunedau. Mae'r broses yma wedi dechrau yn barod gyda thrafodaethau a chynllunio wedi digwydd yn ystod cyfarfodydd y PYP.

12.2 Yn dilyn uno'r PYP a'r PGL rydym yn bwriadu datblygu cyfarfodydd Grŵp Ffocws Tenantiaid rheolaidd. Bydd y cyfarfodydd yma'n fwy anffurfiol na'r panel Tenantiaid a Chymunedau, a

chynhelir trafodaethau er mwyn cael mewnbwn ac adborth gan denantiaid ar broblemau gwahanol.

- 12.3 Bydd angen i meysydd gwahanol o fewn y sefydliad i ystyried eitemau yr hoffent i'n Grŵp Ffocws weithio arnynt. Byddai'n fuddiol datblygu rhyw fath o Flaenraglen Gwaith, a fyddai hefyd yn helpu i recriwtio cyfranogwyr.
- 12.4 Rydym angen gwneud defnydd pellach o'n Grŵp Ymateb Cyntaf, a sicrhau bod gan y grŵp fwy o gyfleodd i ddarparu mewnbwn, neu fel arall mae mewn perygl o golli momentwm. Fel gyda'r Grŵp Ffocws byddwn angen i feysydd gwahanol o fewn y sefydliad i ystyried eitemau yr hoffent eu dwyn i sylw'r Grŵp Ymateb Cyntaf ar gyfer cael adborth arnynt.
- 12.5 Mae Grŵp Trawsnewid Digidol wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar. Bydd y grŵp prosiect yma'n cynnwys staff a thenantiaid, ac yn edrych ar yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynnig yn ddigidol.
- 12.6 Byddwn hefyd yn ymgynghori gyda thenantiaid ynglŷn â'n gwefan a sut y gellid ei gwella.
- 12.7 Rydym hefyd yn ystyried y posibilrwydd o weithio gyda menter Celf a Cherddoriaeth Gymunedol TAPE i ddatblygu fideos/cynnwys gweledol ar gyfer ein gwefan. Y bwriad fyddai cael tenantiaid i gymryd rhan yn y gwaith, ac o bosib rhoi cyfle iddynt ennill cymhwyster/achrediad.
- 12.8 Ar adeg ysgrifennu'r darn hwn mae gennym ddigwyddiad ar y gweill yn un o'n lleoliadau. Yr enw ar y digwyddiad hwn yw dod i adnabod eich landlord. Rydym wedi gwneud hyn yn ein safleoedd eraill yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf. Bydd yn ddigwyddiad anffurfiol, gyda *gazebo* a staff yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau neu ddelio gydag unrhyw broblemau, yn amrywio o reolaeth tai i broblemau budd-daliadau lles/rent. Mae'r Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu Lleol wedi cael gwahoddiad i fynychu'r digwyddiad, yn ogystal â Fan Gwybodaeth Ailgyrchu Symudol yr Awdurdod Lleol. Byddwn yn gwerthuso'r digwyddiad ac yn edrych i gynnal digwyddiadau tebyg mewn ardaloedd arall.
- 12.8 Mae prosiect Wal Tre Cwm wedi cael ei lansio yn ddiweddar, sef prosiect partneriaeth rhwng Tai Gogledd Cymru, CALL (Culture Action Llandudno) a Cartrefi Conwy. Prif fwriad y prosiect fydd lleoli gwaith celf ar wal un o brif fynedfeydd ystâd Tre Cwm. Bydd preswylwyr yn ganolog i'r prosiect, a bydd hefyd gwahoddiad iddynt ffurfio grŵp prosiect gyda'r swyddi canlynol:
- Dogfennu
 - Cynorthwydd Artistig
 - Cynhyrchedd Creadigol Cynorthwyol
 - Dylunio Digidol
 - Aelodau Tîm y Wal
- 12.9 Rydym yn bwriadu dechrau clwb cerdded ar gyfer tenantiaid. Byddwn yn defnyddio'r profiad o ddigwyddiadau awyr agored er mwyn creu'r cyfle hwn i denantiaid. Bydd hyn yn cael ei gyflawni fel cynllun peilot gyda dau o'n safleoedd tai cysgodol ac mae'n cyd-fynd â'r Ymagwedd 5 Llwybr i Lesiant.
- 12.10 Byddwn yn cynhyrchu astudiaethau achos gan denantiaid sydd wedi cymryd rhan yn rhai o'r digwyddiadau cyfranogiad tenantiaid.

Cysylltiadau Cynllun Busnes: Amcan Strategol 1.5 - Cynyddu cyfleodd i ymgysylltu a sicrhau bod llais y cwsmer yn llywio'r gwaith rydym yn ei wneud. Cynyddu ymgysylltiad gyda phobl ifanc a theuluoedd yn benodol.

Goblygiadau adnoddau

Cyllidol: Cyllideb ymgysylltu â thenantiaid

Personél: Cydlynnydd Cyfranogiad Tenantiaid

Effaith ar gynaliadwyedd - Rheolaeth busnes effeithiol; gwella gwasanaethau, cysylltiadau cyhoeddus da, ac enw da gwell i'r sefydliad.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb - Ddim yn berthnasol

Risg: TGC ddim yn gwrandao ar denantiaid. Tenantiaid ddim yn cael cyfle i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Difrifoldeb cynhenid a thebygolrwydd: Effaith = 3 Tebygolrwydd = 3 Cyfanswm = 9

Rheolau risg: Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid, a dogfennaeth arall e.e. Cylch Gorchwyl PYP, cynllun prosiect Agor y Drysau i'r Awyr Agored

Gweithredu pellach: Dim

Cyfrinachedd - Nid yw hon yn eitem gyfrinachol

Swyddog Cyswllt - Iwan Evans Cydlynnydd Cyfranogiad Tenantiaid

Ffôn: 01492 563232

Atodiadau -